

Proses Apelio AB: Haf 2020

Os ydych yn fyfyrwr sy'n cael canlyniadau ar gyfer cwrs Addysg Bellach yr Haf hwn ac rydych yn teimlo y gallai eich canlyniad fod yn anghywir, yna gallwch **Apelio** i'r Coleg drwy gysylltu â ni ar un o'r cyfeiriadau e-bost hyn:

COLEG SIR GÂR feappeals@colegsirgar.ac.uk	COLEG CEREDIGION feappeals@ceredigion.ac.uk
------------------------------------------------------------------------------------------------------	-------------------------------------------------------------------------------------------------------

Wrth anfon e-bost, os gwelwch yn dda rhwch:

- Rif Adnabod y Myfyriwr
- Enw llawn
- Dyddiad Geni
- Cwrs a astudiwyd
- Campws a fynychwyd

ac esboniwch y rheswm pam y tybiwch y gallai eich gradd fod yn anghywir. Bydd penderfyniad ynghylch apêl yn cael ei roi i chi o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl derbyn e-bost.

Caiff pob apêl ei hystyried gan bobl gymwys, nad oeddent yn gysylltiedig o'r blaen â'r broses a arweiniodd at roi eich canlyniadau ac nad oes ganddynt unrhyw gysylltiad personol yn y deilliant.

Os yw'r Coleg yn teimlo bod eich apêl yn **DDILYS (ee, os yw'n gweld bod camgymeriad wedi'i wneud wrth gyflwyno data i'r corff dyfarnu)**, bydd yn ei throsglwyddo i'r corff dyfarnu i ymchwilio iddi.

Os yw'r Coleg yn teimlo **NAD** yw eich apêl yn **DDILYS (ee, nid yw'n gallu gweld camgymeriad wrth gyflwyno data i'r corff dyfarnu)** bydd yn cyfleu hyn yn ôl i chi. Mewn amgylchiadau o'r fath gallwch hefyd apelio yn erbyn y penderfyniad hwn ac yna bydd y Pennaeth neu Bennaeth Cynorthwyol penodedig yn ystyried hyn.

Yn ychwanegol, mae gennych yr hawl i weld y wybodaeth y seiliodd y Coleg ei benderfyniad ynglŷn â'ch gradd arni, a drosglwyddwyd i'r corff dyfarnu. Er mwyn gwneud hyn, byddai angen i chi gyflwyno cais gwrthrych am wybodaeth, y mae'n rhaid ymateb iddo o fewn 40 diwrnod ar ôl i'r canlyniadau gael eu rhyddhau. I wneud cais cysylltwch â dataprotectionofficer@colegsirgar.ac.uk gan ddefnyddio'r ffurflen Cais Gwrthrych am Wybodaeth YMA.